NRS
Nuclear Restoration Services

# Adroddiad Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau NRS (Cymru)

Ionawr 2023 i Ragfyr 2025

**Ar gyfer dyfodol pob un ohonom**



# Cynnwys

**Rhagarweiniad** 3

Rhan o ddyfodol cynaliadwy 4
Ein dyletswydd i fioamrywiaeth 4
Ein hôl troed yng Nghymru 5
Cyd-destun safle Trawsfynydd a Maentwrog 6
Cyd-destun safle Wylfa 7

**Gweithgareddau yn ystod y cyfnod adrodd (2023 – 2025)** 8

**Llywodraethu** 14

**Atodiad A – Cydnawsedd â dyletswydd adran 6** 15



# Rhagarweiniad

## Pwy ydyn ni

Mae Nuclear Restoration Services (NRS) yn is-gwmni sy'n eiddo llwyr i'r Nuclear Decommissioning Authority. Rydym yn gyfrifol am ddatgomisiynu 14 o safleoedd niwclear ledled y DU mewn ffordd ddiogel, sicr a chynaliadwy. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Y prosiect glanhau a dymchwel amgylcheddol mwyaf yn yr Alban yn hen ganolfan ymchwil a datblygu adweithyddion cyflym, Dounreay
- Un ar ddeg o safleoedd niwclear cenhedlaeth gyntaf ac ail genhedlaeth yn Berkeley, Bradwell, Chapelcross, Dungeness A, Hinkley Point A, Hunterston A, Hunterston B, Oldbury, Sizewell A, Trawsfynydd a Wylfa
- Dau safle ymchwil adweithyddion yn Harwell a Winfrith

Mae NRS hefyd yn gweithredu gorsaf bŵer ynni dŵr ym Maentwrog.

Ymunodd Hunterston B ag NRS ar 1 Ebrill 2026 fel y safle adweithydd uwch cyntaf wedi'i oeri â nwy i gael ei ddatgomisiynu. Bydd Hinkley Point B yn dilyn yn hydref 2026. Bydd

Dungeness B, Torness, Heysham 1 a 2, a Hartlepool yn ymuno ag NRS wrth iddynt gael eu dad-danwyddu dros y degawd nesaf.



## Rhan o ddyfodol cynaliadwy

Yn NRS rydym yn credu'n gryf fod gan bob cyn-safle niwclear ddefnydd gwerthfawr ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r uchelgais hon yn cael ei hadlewyrchu yn ein pwrpas:

***"Rydym yn gyfrifol am ddarparu gwerth am arian wrth ddatgomisiynu ac adfer safleoedd niwclear, gan sicrhau bod ein dyfodol i gyd yn ddiogel, yn sicr ac yn gynaliadwy."***

Mae'r tir yn ein gofal yn cynnig cyfle unigryw i greu gwaddol amgylcheddol gadarnhaol. Drwy adfer a gwella cynefinoedd, cefnogi rhywogaethau blaenoriaeth a chreu ecosystemau gwydn, mae NRS yn anelu at sicrhau bod hen safleoedd niwclear yn parhau i ddarparu gwerth i natur a chymunedau ymhell ar ôl i'r datgomisiynu gael ei gwblhau; ar gyfer dyfodol pob un ohonom.



## Ein dyletswydd i fioamrywiaeth

Mae ein hystâd yn cynnwys ystod amrywiol o gynefinoedd a rhywogaethau ac yn rhan o rwydweithiau ecolegol ehangach ledled Cymru, Lloegr a'r Alban. Fel corff cyhoeddus sy'n gweithredu ar draws y tair gwlad hyn, rhaid i'r NRS gyflawni'r dyletswyddau bioamrywiaeth statudol sy'n berthnasol i bob un.

Yng Nghymru, mae adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod dyletswydd ar NRS i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a, thrwy wneud hynny, hyrwyddo gwydnwch ecosystemau.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r camau y mae NRS wedi'u cymryd i gydymffurfio â'r ddyletswydd adran 6 yn ystod y cyfnod adrodd (Ionawr 2023 i Ragfyr 2025). Mae hefyd yn nodi ymrwymiadau ar gyfer y cyfnod adrodd nesaf.

Mae NRS yn alinio agosaf â sefydliadau a ddisgrifir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru fel 'Grŵp 2', a ddiffinnir fel:

- y rhai sy'n berchen ar dir, adeiladau a thiroedd, yn eu meddiannu neu'n eu rheoli
- y mae eu swyddogaethau'n gysylltiedig â bioamrywiaeth a/neu reoli tir, neu
- a all ddylanwadu ar y rhai sy'n berchen ar dir neu'n ei reoli

# Ein hôl troed yng Nghymru

Mae ein hôl troed gweithredol yng Nghymru yn cynnwys tri safle: Trawsfynydd, Maentwrog a Wylfa. Mae pob safle wedi'i leoli o fewn lleoliad ecolegol penodol ac yn rhan o rwydweithiau ecolegol ehangach yng Ngogledd Cymru. Mae crynodeb o gyd-destun bioamrywiaeth pob safle yn dilyn.

## Cyd-destun safle Trawsfynydd a Maentwrog




### Tirwedd

Mae gorsaf ynni dŵr Maentwrog a gorsaf ynni niwclear Trawsfynydd wedi'u lleoli o fewn Parc Cenedlaethol Eryri ac maen nhw'n rhannu dibyniaeth ar Lyn Trawsfynydd. Adeiladwyd y llyn yn y 1920au mewn camp beirianyddol ryfeddol i bweru cynllun ynni dŵr Maentwrog, sydd wedi bod yn cynhyrchu ynni adnewyddadwy ers bron i ganrif. Yn ddiweddarach, darparodd y llyn yr amodau oedd eu hangen ar gyfer gorsaf bŵer niwclear sifil fewndirol gyntaf y DU yn Nhrawsfynydd. Dechreuodd y gwaith adeiladu ym 1959, a chafwyd mwy na dau ddegawd o gynhyrchu pŵer nes i'r datgomisiynu ddechrau ym 1991.

Mae tirddaliad Maentwrog yn fach, llai na 3 hectar, gyda hanner y safle wedi'i ddominyddu gan yr adeiladau ynni dŵr a llawr caled. Cynefinoedd coetir, prysgwydd a glaswelltir yw'r tir sy'n weddill, gydag adeilad preswyl a gerddi cysylltiedig.

Mewn cymhariaeth, mae'r daliad tir yn Nhrawsfynydd yn fawr, sef 27 hectar, yn cynnwys y safle trwyddedig niwclear a thir o amgylch Llyn Trawsfynydd. Mae'r safle trwyddedig niwclear yn cael ei ddominyddu gan seilwaith gweithredol a llawr caled cysylltiedig. Fodd bynnag, mae'r safle ehangach yn cynnal cynefinoedd coetir, prysgwydd, glaswelltir a dyfrol sy'n cyfrannu at amrywiaeth ecolegol yr ardal.

Mae'r safleoedd yn rhan o rwydwaith ehangach o gynefinoedd ac maent wedi'u lleoli'n agos at sawl safle cadwraeth natur dynodedig cenedlaethol a rhyngwladol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirionnydd
- ACA, Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Migneint-Arenig-Dduallt
- Afon Eden – ACA Cors Goch Trawsfynydd
- Gwarchodfa Natur Genedlaethol (GNG) a SoDdGA Coed y Rhygen
- GNG a SoDdGA Coedydd Maentwrog



Mae coetiroedd a dŵr rhedegog yn darparu cynefin i gyfoeth o rywogaethau bywyd gwyllt, gan gynnig cyfleoedd i lochesi a nythu yn ogystal â bwydo a chymudo

Gyda'i gilydd, mae'r dynodiadau hyn yn cynnal ystod eang o gynefinoedd coetir, gwlyptir, dŵr croyw ac ucheldir ac yn ffurfio rhan o rwydwaith ecolegol pwysig ar draws tirwedd Eryri.



Daw enw'r ystlum pedol lleiaf o siâp nodedig ei drwyn sy'n ei helpu i ddefnyddio ecoleoliad ar gyfer llywio a dal ysglyfaeth.



Chwith: Caineirian cyffredin. Os edrychwch yn ofalus ar ei flodyn, mae'n debyg i fabi bach gwyrdd, yn dawnsio neu'n neidio

Dde: Tegeirian brych cyffredin

### Rhywogaeth

Mae'r safleoedd a'r dirwedd o'u cwmpas yn cynnal amrywiaeth o rywogaethau nodedig a gwarchodedig. Rhoddir pwyslais arbennig ar yr ystlum pedol lleiaf (Rhinolophus hipposideros), sydd wedi'i gynnwys yn rhestr rhywogaethau gwarchodedig adran 7 oherwydd bod ei boblogaeth yn lleihau.

Mae safle Trawsfynydd a'r ardal gyfagos yn cynnwys clwydi mamolaeth a gaeafgysgu pwysig i'r rhywogaeth hon. Mae'r cynefinoedd coetir, prysgwydd a dŵr croyw sy'n gysylltiedig â'r safle hefyd yn darparu cynefin cymudo a fforio gwerthfawr. O ganlyniad, mae'r ystlum pedol wedi'i nodi fel 'rhywogaeth eiconig' i'w chynnwys yn ein cynllun gweithredu bioamrywiaeth ar gyfer y safle hwn.

Mae'r ardal ehangach hefyd yn cynnal cregyn gleision perlog dŵr croyw, dyfrgwn, eogiaid yr Iwerydd, adar sy'n bridio ac yn gaeafu, ystlumod, amffibiaid, ymlusgiaid ac ystod amrywiol o rywogaethau planhigion a choetir sy'n gysylltiedig â thirwedd Eryri.





Adar y to

# Cyd-destun safle Wylfa




## Tirwedd



Mae glaswelltiroedd a phrysgwydd arfordirol yn darparu cynefinoedd pwysig i amrywiaeth o rywogaethau planhigion ac anifeiliaid.

Mae safle Wylfa wedi'i leoli ar arfordir gogleddol Ynys Môn, gerllaw Penrhyn Wylfa, o fewn tirwedd o werth ecolegol sylweddol. Mae canol y safle wedi'i ddominyddu gan adeiladau gweithredol a seilwaith cysylltiedig. Fodd bynnag, mae'r safle ehangach yn cynnwys ardaloedd o laswelltir, glaswelltir arfordirol, prysgwydd a choetir planhigfa sy'n cyfrannu at amrywiaeth ecolegol yr ardal.

Mae Wylfa yn rhan o rwydwaith ehangach o gynefinoedd arfordirol ac mae'n sefyll gerllaw, neu'n agos at, sawl safle dynodedig lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- ACA Morol Gogledd Ynys Môn
- Gwarchodfa Natur Leol Penrhyn Wylfa
- SoDdGA Tre'r Gof
- ACA a SoDdGA Bae Cemlyn
- Tirwedd Genedlaethol Ynys Môn

Mae'r dirwedd o'i gwmpas yn cynnal amrywiaeth o gynefinoedd arfordirol, gwlyptiroedd a rhostiroedd sy'n cyfrannu at wydnwch ecosystemau a chysylltedd cynefinoedd ar draws gogledd Ynys Môn.

## Rhywogaethau

Mae'r safle a'r ardal gyfagos yn cynnal amrywiaeth o rywogaethau nodedig a gwarchodedig. Rhoddir pwys arbennig i'r frân goesgoch (Pyrrhocorax pyrrhocorax), sydd wedi sefydlu safleoedd nythu ar safle Wylfa ac o'i amgylch. Mae'r frân goesgoch yn rhywogaeth o bwys mawr o dan adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac mae Ynys Môn yn cynnal cyfran sylweddol o boblogaeth bridio Cymru.

Mae'r safle hefyd yn darparu cynefin a chysylltedd ecolegol ar gyfer ystlumod, ymlusgiaid, amffibiaid, infertebratau, adar sy'n bridio ac yn gaeafu, ac amrywiaeth o rywogaethau daearol a morol sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd arfordirol cyfagos.



Y Frân Goesgoch neu Pyrrhocorax pyrrhocorax, sy'n cyfieithu i 'frân dân'.

# Gweithgareddau yn ystod y cyfnod adrodd (2023 i 2025)

## Cynyddu ein dealltwriaeth

Yn ystod y cyfnod adrodd, fe wnaethom ymgymryd â rhaglen waith sylweddol i wella dealltwriaeth o fioamrywiaeth ar draws ein safleoedd yng Nghymru ac i ymgorffori bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau mewn prosesau cynllunio busnes a gwneud penderfyniadau.

Roedd hyn yn cynnwys rhaglen helaeth o arolygon ecolegol sylfaenol i wella ein dealltwriaeth o'r cynefinoedd a'r rhywogaethau sydd ar draws ein safleoedd a sut maen nhw'n cyfrannu at rwydweithiau ecolegol lleol ac ehangach.

Mae'r arolygon hyn wedi mynd y tu hwnt i asesiadau ecolegol safonol, gan ymgorffori gwerthusiadau cymeriad tirwedd, mapio rhwydweithiau ecolegol a nodi cyfleoedd i wella bioamrywiaeth ar raddfa'r dirwedd.

## Asesiad manwl o'r risgiau i ecoleg (DARE)

Gan adeiladu ar y sail dystiolaeth hon, fe wnaethom ddatblygu DARE ar gyfer pob safle. Mae'r asesiadau hyn yn nodi ac yn gwerthuso'r risgiau a'r cyfleoedd bioamrywiaeth sy'n gysylltiedig â gweithgareddau datgomisiynu ac adfer, ac yn llywio cynlluniau rheoli risgiau a chyfleoedd sy'n benodol i safleoedd.

Gyda'i gilydd, mae'r cynlluniau hyn yn darparu dull cyson ar draws yr ystâd, gan helpu i fodloni, a lle bo modd, rhagori ar ofynion cyfreithiol sy'n ymwneud â lliniaru, gwneud iawn a gwella bioamrywiaeth. Maent hefyd yn alinio gweithgareddau'r NRS ag amcanion adfer awdurdodau, rheoleiddwyr a chyrff cadwraeth perthnasol.

## Cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth

O ganlyniad i'r gwaith hwn, rydym wedi dechrau datblygu cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth penodol i safleoedd, a fydd yn darparu fframwaith ar gyfer gwella bioamrywiaeth yn y dyfodol ac yn grymuso'r rhai sy'n gweithio yn ein safleoedd ac o'u cwmpas i gefnogi adferiad natur yn weithredol.

## Cryfhau ein rheolaeth

Yn ystod y cyfnod adrodd, fe wnaethom ddatblygu neu ddiweddaru sawl dogfen o fewn System Rheoli NRS i gryfhau ystyriaethau bioamrywiaeth a chefnogi cyflawni adran 6 o'r ddyletswydd bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Strategaeth Gynaliadwyedd NRS, wedi'i chrynhoi yn Gwybodaeth Ychwanegol 1.
- Safon Cwmni NRS ar gyfer Ecoleg a Bioamrywiaeth, sy'n ymgorffori ystyriaethau bioamrywiaeth mewn arferion busnes bob dydd a phrosesau gwneud penderfyniadau. Mae'r safon hon yn ymgorffori ymrwymiadau dyletswydd bioamrywiaeth NRS. Atgynhyrchir y ddyletswydd yn Gwybodaeth Ychwanegol 2.
- Strategaeth Effaith Gymdeithasol a Chymunedau NDA, yr ydym drwyddi yn alinio ein gweithgareddau economaidd-gymdeithasol yng Nghymru â nodau llesiant ac egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae ein dull o gymhwyso'r egwyddorion hyn i fioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau yng Nghymru wedi'i grynhoi yn Gwybodaeth Ychwanegol 3.
- Cynllun Cynaliadwyedd Safle Wylfa a Chynllun Cynaliadwyedd Safle Trawsfynydd a Maentwrog, sy'n trosi ymrwymiadau cynaliadwyedd corfforaethol yn gamau gweithredu penodol i'r safle. Atgynhyrchir ymrwymiadau bioamrywiaeth a llesiant perthnasol o'r cynlluniau hyn yn Gwybodaeth Ychwanegol 4.

Gyda'i gilydd, mae'r ymrwymiadau corfforaethol a phenodol i safleoedd hyn yn darparu'r fframwaith ar gyfer cyflawni ein hymrwymiadau bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau yng Nghymru.

Mae Atodiad A yn dangos sut mae'r ymrwymiadau hyn yn cyd-fynd â gofynion unigol adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac yn eu cefnogi.

**Gwybodaeth Ychwanegol 1: Strategaeth Gynaliadwyedd NRS**

Cyhoeddwyd Strategaeth Gynaliadwyedd NRS (gweler Delwedd 1) yn 2025 ac mae'n cynnwys blaenoriaeth amgylcheddol sy'n addo "Datgomisiynu mewn ffordd sy'n annog natur a phobl i ffynnu." Mae'r flaenoriaeth hon yn cynnwys pum thema. Y ddwy sydd fwyaf perthnasol i'r datganiad dyletswydd bioamrywiaeth yw:

- Meithrin a gwella bioamrywiaeth ar ein safleoedd ac o'u hamgylch
- Gweithredu ar newid hinsawdd

Mae'r ymrwymiadau strategaeth hyn yn sicrhau bod ystyriaethau bioamrywiaeth ac adfer ecosystemau yn cael eu hintegreiddio i system reoli'r cwmni a'r broses o wneud penderfyniadau.

Mae'r strategaeth gynaliadwyedd hefyd yn cynnwys ymrwymiadau sy'n cefnogi cyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Er enghraifft, o dan Flaenoriaeth 3: Cymunedau, mae NRS yn ymrwymo i:

- Cefnogi cymunedau lleol i ddatblygu economïau ffyniannus a gwydn, gan alluogi trawsnewidiad cyfiawn.



## Gwybodaeth Ychwanegol 2: Ymrwymiadau dyletswydd bioamrywiaeth NRS

(wedi'i gopïo o safon cwmni 'Ecoleg a Bioamrywiaeth' NRS)

Fel corff cyhoeddus sy'n gweithredu ledled Cymru, Lloegr a'r Alban, rhaid i NRS gyflawni'r dyletswyddau bioamrywiaeth statudol sy'n berthnasol i bob gwlad. Er bod y dyletswyddau hyn yn wahanol o ran geiriad cyfreithiol, maent yn rhannu disgwyliad cyffredin bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus warchod, cynnal a gwella bioamrywiaeth drwy arfer eu swyddogaethau'n briodol.

- **Lloegr:** Rhaid i awdurdodau cyhoeddus ystyried, cynllunio a gweithredu i warchod a gwella bioamrywiaeth o dan Ddeddf yr Amgylchedd 2021.
- **Yr Alban:** Rhaid i gyrff cyhoeddus hyrwyddo cadwraeth bioamrywiaeth o dan Ddeddf Cadwraeth Natur (Yr Alban) 2004, gyda gofyniad i gyhoeddi adroddiad dyletswydd bioamrywiaeth bob tair blynedd o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a'r Amgylchedd Naturiol (Yr Alban) 2011.
- **Cymru:** Rhaid i gyrff cyhoeddus gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwydnwch ecosystemau o dan adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, gydag adrodd bob tair blynedd.

Ar draws pob safle NRS, felly, rydym yn ymrwymo i:

- Ystyried y cyfrifoldebau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth ar draws y tir rydym yn ei reoli
- Gosod polisïau ac amcanion penodol yn seiliedig ar yr ystyriaethau hyn
- Gweithredu i gyflawni'r polisïau hyn a chyflawni ein hamcanion yn unol â dyletswyddau statudol cenedlaethol

### Ystyried beth all NRS ei wneud i wella bioamrywiaeth

Mae NRS yn warcheidwaid rhai ardaloedd unigryw o dir sy'n cynnwys ystod eang o gynefinoedd a rhywogaethau. O rostiroedd i wlyptiroedd ac amffibiaid i adar ysglyfaethus, rydym yn gyfrifol am amddiffyn a gwella ein safleoedd a phopeth sy'n byw arnynt am genedlaethau.

Bydd datblygu dull o ddatgomisiynu sydd â chynaliadwyedd wrth ei wraidd yn sicrhau bod diogelu a gwella natur yn cael ei weld fel y ffordd yr ydym yn gweithredu yn NRS. Mae hyn yn cynnwys datblygu strategaethau a phrosesau sy'n sicrhau bod gwerth bioamrywiaeth ein safleoedd yn cael ei ddeall, ei werthfawrogi a'i ystyried wrth gyflawni ein cenhadaeth.

### Polisïau ac amcanion NRS yn seiliedig ar ein hystyriaethau

Mae pwrpas NRS yn ymgorffori cynaliadwyedd: "Rydym yn gyfrifol am ddarparu gwerth am arian wrth ddatgomisiynu ac adfer safleoedd niwclear, gan sicrhau bod dyfodol pob un ohonom yn ddiogel, yn sicr ac yn gynaliadwy."

Mae Polisi Cynaliadwyedd NRS yn ein hymrwymo i: "Gwerthfawrogi'r adnoddau rydyn ni'n eu defnyddio, meithrin bioamrywiaeth o fewn ac o amgylch ein safleoedd, gweithredu ar newid hinsawdd a chyflawni ein hymrwymiad i sero net erbyn 2050."

Mae Strategaeth Gynaliadwyedd NRS yn cynnwys nod strategol i: "Datgomisiynu mewn ffordd sy'n annog natur a phobl i ffynnu." Mae'r egwyddorion sydd wedi'u cynnwys yn y strategaeth gynaliadwyedd sy'n berthnasol i gyflawni ein dyletswydd bioamrywiaeth yn cynnwys:

- Ystyried llesiant cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol wrth wneud penderfyniadau

- Cefnogi cyflyrau terfynol sy'n sicrhau'r gwerth mwyaf posibl i gymunedau lleol a'r DU gyfan, gan gynnwys creu cynefinoedd unigryw sy'n cefnogi natur a gwydnwch hinsawdd
- Sicrhau bod diogelu a gwella bywyd gwyllt yn rhagofyniad ar gyfer datgomisiynu llwyddiannus
- Gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i ehangu manteision ac i sicrhau bod ein hymdrechion yn gwella nodweddion tirwedd ehangach
- Cydweithio â phartneriaid yn y gadwyn gyflenwi a'r diwydiant i wneud y mwyaf o'r manteision

Er mwyn cyflawni ein dyletswyddau statudol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, ac i gyflawni ein polisïau a'n hamcanion i ymgorffori ystyriaethau bioamrywiaeth ym mhob agwedd ar ein gwaith, bydd NRS yn:

- Deall gwerth bioamrywiaeth cyfredol ein safleoedd, gan ystyried strategaethau safleoedd gwarchodedig
- Defnyddio dull rhagweithiol i leihau risg a gwneud y mwyaf o gyfleoedd, gan gynnwys ymgorffori atebion sy'n seiliedig ar natur a gwydnwch hinsawdd mewn prosesau gwneud penderfyniadau
- Datblygu a chynnal cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth ar gyfer pob safle, gan ganolbwyntio ar gynefinoedd a rhywogaethau sy'n bwysig yn lleol, wedi'u halinio â fframweithiau cenedlaethol megis strategaethau adfer natur lleol yn Lloegr a blaenoriaethau bioamrywiaeth lleol yng Nghymru a'r Alban
- Ymgymryd â phrosiect cadwraeth blaenllaw (wedi'i gynnwys yn BAPs safleoedd) i arloesi a hyrwyddo cyflyrau terfynol bioamrywiaeth
- Cynnal ffeil, cofrestr a map bioamrywiaeth ar gyfer pob safle, gan sicrhau bod gwybodaeth ecolegol yn gywir, yn hygyrch ac yn gyfredol
- Diweddaru prosesau allweddol yn system reoli NRS i brif ffrydio bioamrywiaeth ar draws gwneud penderfyniadau yn ymwneud â'r prosiect, rhai gweithredol a rhai strategol.
- Sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael sylw mewn asesiadau effaith amgylcheddol, asesiadau rheoliadau cynefinoedd ac achosion busnes, gan gynnwys ystyriaethau cyfalaf naturiol
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol a chymunedau lleol i sicrhau bod ein gwaith yn adlewyrchu blaenoriaethau a chyfleoedd lleol
- Bodloni gofynion adrodd cenedlaethol, gan gynnwys adroddiadau dyletswydd bioamrywiaeth blynyddol yng Nghymru a'r Alban, a chyfrannu at gylch ystyriaeth pum mlynedd Lloegr

**Gwybodaeth Ychwanegol 3: Perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Fel cwmni gweithredu sy'n gweithio o dan y Nuclear Decommissioning Authority, mae NRS yn alinio ei weithgareddau economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 trwy gyflawni **Strategaeth Effaith Gymdeithasol a Chymunedau** NDA a Strategaeth Gynaliadwyedd NRS.

Mae'r dull hwn yn helpu i sicrhau bod gweithgareddau datgomisiynu ac adfer niwclear hirdymor yn amddiffyn pobl a'r amgylchedd wrth greu manteision parhaol i gymunedau a chenedlaethau'r dyfodol.

Mae mwyafrif gofynion y ddeddf yn cael eu bodloni drwy gyflawni ein cynllun economaidd-gymdeithasol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod bioamrywiaeth yn cyfrannu'n uniongyrchol at nodau llesiant Cymru wydn, Cymru lewyrchus, Cymru iachach a Chymru sy'n gyfrifol yn

fyd-eang. O ganlyniad, mae ystyriaethau bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau wedi'u hintegreiddio i'n holl gynllunio a'n gweithgareddau.

Wrth gyflawni ein dyletswydd bioamrywiaeth, rydym yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac yn ceisio adlewyrchu'r pum ffordd o weithio:

- Hirdymor – Cynllunio ar gyfer canlyniadau adfer sy'n darparu manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd parhaol y tu hwnt i oes weithredol safleoedd.
- Atal – Nodi a mynd i'r afael â risgiau i fioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau yn gynnar drwy asesiadau ecolegol, cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth, gweithgareddau addasu i'r hinsawdd a phrosesau rheoli amgylcheddol.
- Integreiddio – Ymgorffori bioamrywiaeth, gwydnwch hinsawdd, cyfalaf naturiol ac ystyriaethau cynaliadwyedd ehangach mewn cynllunio busnes, datblygu prosiectau a phrosesau gwneud penderfyniadau.
- Cydweithio – Gweithio gyda rheoleiddwyr, awdurdodau lleol, sefydliadau cadwraeth, grwpiau cymunedol, sefydliadau addysgol, partneriaid cadwyn gyflenwi a'r NDA i wneud y mwyaf o'r manteision amgylcheddol a chymunedol.
- Ymglymiad – Ymgysylltu â rhanddeiliaid a chymunedau lleol i ddeall blaenoriaethau lleol a helpu i gyflawni canlyniadau sy'n cefnogi adferiad natur a llesiant cymunedol.

Mae'r dull hwn yn cefnogi ymrwymiad NRS i gyflawni rhaglenni datgomisiynu ac adfer sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at leoedd lleol, yn cryfhau gwydnwch ecosystemau, yn cefnogi addasu i'r hinsawdd ac yn creu manteision cynaliadwy i genedlaethau presennol a rhai'r dyfodol.

### Gwybodaeth Ychwanegol 4: Ymrwymiadau bioamrywiaeth a llesiant o gynlluniau cynaliadwyedd safleoedd Cymru

Datblygwyd cynlluniau cynaliadwyedd safle Wylfa, Trawsfynydd a Maentwrog yn 2025 a byddant yn cael eu cyflawni yn ystod y cyfnod adrodd nesaf.

Mae'r cynlluniau'n nodi camau gweithredu penodol i'r safle sy'n cefnogi cyflawni Strategaeth Gynaliadwyedd NRS. Mae nifer o'r camau gweithredu hyn yn ymwneud yn uniongyrchol â bioamrywiaeth, gwydnwch ecosystemau a llesiant cymunedol, gan helpu NRS i gyflawni ei ymrwymiadau o dan adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Mae'r camau gweithredu yn y cynlluniau'n amrywio o fentrau gwella cynefinoedd ac ecosystemau hirdymor i weithgareddau ymarferol sy'n galluogi gweithwyr i gyfrannu'n uniongyrchol at adferiad natur.

Mae safleoedd NRS yn lleoedd lle mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn ymweld. Gall gwella ansawdd cynefinoedd o fewn ein safleoedd ac o'u hamgylch wella mynediad at natur, cefnogi llesiant a meithrin ymdeimlad o falchder a chysylltiad â'r amgylchedd lleol.

### Camau gweithredu: Trawsfynydd a Maentwrog

1. Datblygu a gweithredu cynllun gweithredu bioamrywiaeth y safle erbyn mis Mawrth 2027, gan ganolbwyntio ar wella cynefinoedd a chysylltedd ecolegol, gan roi ystyriaeth benodol i'r ystlum pedol lleiaf (rhywogaeth flaenoriaeth adran 7 yng Nghymru).
2. Cyflawn rhaglen rheoli cynefinoedd 10 mlynedd, gan wella cynefinoedd glaswelltir asidig, coed derw ucheldirol a choetir gwlyb ar dir a reolir gan NRS ar lan ddwyreiniol Llyn Trawsfynydd. Bydd y gweithgareddau hyn yn sicrhau budd net i fioamrywiaeth ac yn gwneud iawn am effeithiau ecolegol posibl yn y dyfodol a fydd yn deillio o weithgareddau datgomisiynu, gan gynnwys:
   - **Pori cadwraeth**
   - **Gwella coetiroedd brodorol**
   - **Creu cynefinoedd ystlumod ac adar**
3. Gwella cyfleoedd cynefinoedd i beillwyr a bywyd gwyllt arall drwy fesurau fel 'Mai Di-Dor', plannu peillwyr a phentyrrau cynefin.
4. Cefnogi mentrau cadwraeth lleol, gan gynnwys gwaith i helpu i wrthdroi dirywiad cregyn gleision perlog dŵr croyw sy'n gysylltiedig â dalgylch Morfa Crawcellt.
5. Cefnogi gweithgareddau casglu sbwriel dan arweiniad staff i leihau plastigau a sbwriel sy'n mynd i mewn i'r amgylchedd naturiol.
6. Cynnal gweithdy risg i ddeall risgiau hinsawdd yn Nhrawsfynydd a Maentwrog, gan gynnwys risgiau i ecosystemau.
7. Cymorth i staff sy'n gwirfoddoli i hyrwyddo llesia.

### Camau gweithredu: Wylfa

1. Adolygu ac ailgyhoeddi cynllun gweithredu bioamrywiaeth y safle erbyn mis Mawrth 2027, gan ganolbwyntio ar gynefinoedd a rhywogaethau sy'n cyfrannu at flaenoriaethau adfer natur lleol a rhanbarthol, gan gynnwys y frân goesgoch (rhywogaeth flaenoriaeth adran 7 yng Nghymru).
2. Cynnal digwyddiad dysgu ar y safle, e.e. taith gerdded Penrhyn Wylfa.
3. Annog bioamrywiaeth [tir llwyd] ar y safle, e.e. Mai Di-dor.
4. Cefnogi prosiectau gwella bioamrywiaeth sy'n gysylltiedig â Phenrhyn Wylfa ac ardal Tre'r Gof.
5. Lleihau sbwriel a phlastigion sy'n mynd i'r amgylchedd naturiol trwy fentrau casglu sbwriel dan arweiniad safleoedd.
6. Hyrwyddo dull strategol o wella bioamrywiaeth drwy geisiadau cynllunio a gweithgareddau cyflawni prosiectau.
7. Cefnogi cynnal gweithdy ar risgiau newid hinsawdd Wylfa ac adlewyrchu hynny yn y gofrestr risg.
8. Tyfu'r rhaglen wirfoddoli a datblygu perthnasoedd ystyrlon ag elusennau a grwpiau cymunedol sy'n bwysig i'r gymuned leol.

# Llywodraethu

Rydym yn cyflawni ein hymrwymiadau bioamrywiaeth drwy system reoli'r NRS, gyda chefnogaeth cynlluniau cynaliadwyedd safleoedd, cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth a phrosesau cynllunio a rheoli amgylcheddol sefydledig. Mae'r cyfrifoldeb am weithredu'n gorwedd o fewn swyddogaethau busnes presennol, gyda chymorth arbenigwyr cynaliadwyedd ac amgylcheddol.

Mae gweithgor bioamrywiaeth traws-swyddogaethol yn dwyn ynghyd gynrychiolwyr o dimau cynaliadwyedd, amgylchedd, cynllunio, cyfreithiol a thechnegol i oruchwylio'r cyflawni, rhannu arfer da a chydlynu camau gweithredu bioamrywiaeth ar draws y sefydliad.

Caiff cynnydd ei fonitro drwy drefniadau rheoli perfformiad ac adrodd sefydledig.

## Adolygu ac edrych ymlaen

Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei adolygu o leiaf bob tair blynedd, neu'n gynt lle bydd newidiadau sylweddol i gyfrifoldebau, gweithrediadau neu ofynion statudol NRS.

Yn ystod y cyfnod adrodd nesaf, bydd NRS yn:

- Cwblhau cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth safleoedd
- Dechrau gweithredu'r camau gweithredu a nodwyd yn y cynlluniau hynny
- Ymgorffori ystyriaethau bioamrywiaeth ymhellach mewn systemau rheoli a phrosesau gwneud penderfyniadau
- Cyflawni ymrwymiadau cynaliadwyedd safleoedd sy'n cefnogi bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau
- Datblygu a chymhwyso metrigau i fonitro perfformiad ac adrodd yn erbyn gofynion y ddyletswydd bioamrywiaeth

Drwy ymgorffori bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau mewn datgomisiynu ac adfer, mae NRS yn creu gwaddol amgylcheddol cadarnhaol a fydd o fudd i bobl a natur am genedlaethau i ddod, gan gyfrannu at ddyfodol diogel, sicr a chynaliadwy.

# Atodiad A
## Cydnawsedd â dyletswydd adran 6

| Elfen o ddyletswydd adran 6 | Ymrwymiadau a gweithgareddau NRS |
|---|---|
| **Cynnal a gwella bioamrywiaeth** | Ymrwymiadau'r ddyletswydd bioamrywiaeth NRS; cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth safleoedd; rhaglenni gwella a rheoli cynefinoedd; mentrau peillwyr; cadwraeth rhywogaethau blaenoriaeth (gan gynnwys ystlumod pedol lleiaf a brain coesgoch – rhywogaethau blaenoriaeth adran 7); prosiectau gwella bioamrywiaeth; cynllunio adfer. |
| **Hyrwyddo gwydnwch ecosystemau** | Asesiadau ecolegol ar raddfa'r dirwedd; mapio rhwydweithiau ecolegol; gwelliannau cysylltedd cynefinoedd; gweithgareddau addasu i'r hinsawdd; atebion sy'n seiliedig ar natur; cynllunio cyflyrau terfynol adfer; asesiadau risg a chyfle DARE. |
| **Ystyried gwydnwch ecosystemau wrth wneud penderfyniadau** | Arolygon ecolegol sylfaenol; astudiaethau DARE; ystyriaethau strategaeth safleoedd gwarchodedig; cofrestrau, ffeiliau a mapiau bioamrywiaeth; safon ecoleg a bioamrywiaeth (S-438); integreiddio bioamrywiaeth i ddatblygu prosiectau, achosion busnes, Asesiadau Effaith Amgylcheddol, Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd a gwneud penderfyniadau gweithredol. |
| **Cydweithio a chyfranogiad** | Ymgysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol, sefydliadau cadwraeth, grwpiau cymunedol, sefydliadau addysgol, partneriaid cadwyn gyflenwi, sefydliadau NDA a chymunedau lleol i wneud y mwyaf o'r manteision amgylcheddol a chymdeithasol. |
| **Camau gweithredu hirdymor** | Strategaeth Gynaliadwyedd NRS; cynlluniau cynaliadwyedd safleoedd; cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth; cyflyrau terfynol adfer; cynllunio gwydnwch hinsawdd; adolygiad cyfnodol o ymrwymiadau; cylch adrodd bioamrywiaeth tair blynedd. |
| **Tystiolaeth, monitro a llywodraethu** | Arolygon ecolegol sylfaenol; asesiadau rhwydwaith ecolegol; cofnodion a mapio bioamrywiaeth; gweithgor bioamrywiaeth; prosesau rheoli perfformiad; datblygu metrigau bioamrywiaeth; adrodd ac adolygu cyfnodol. |
| **Cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** | Cynllunio adfer hirdymor; ymgysylltu cymunedol; mentrau gwirfoddoli; cefnogaeth i brosiectau cadwraeth lleol; addasu i'r hinsawdd; darparu manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd i genedlaethau'r dyfodol. |

Rhan o grŵp NDA

NDA Sellafield Ltd NRS Nuclear Restoration Services Nuclear Waste Services NTS Nuclear Transport Solutions